VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Y GYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU

# Asesiad Effaith Cymunedol

**Ymgynghoriad ar y cynnig i ateb y galw cynyddol am addysg gynradd Saesneg yn y Bont-faen o fis Medi 2022 trwy:**

- **newid ystod oedran Ysgol Gyfun y Bont-faen o 11 - 19 i 3 – 19 oed;**
- **cynyddu capasiti Ysgol Gyfun y Bont-faen o 1,586 o leoedd i 1,796 o leoedd i roi lle i 210 o blant o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg gyda 48 o leoedd rhan amser ychwanegol mewn meithrinfa; a**
- **codi adeilad ysgol newydd ar safle Ysgol Gyfun y Bont-faen ar gyfer y cyfnodau cynradd a meithrin.**



Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille.
Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.
Cysylltwch â ni ar 01446 709828 er mwyn trefnu hyn.

| **Cynnwys** | **Tudalennau** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | 3 |
| **Cyd-destun Cenedlaethol** | 3 |
| **Cyd-destun Polisi Lleol** | 3 - 4 |
| **Heriau Presennol** | 4 |
| **Proffil Cymunedol** | 4 - 5 |
| **Asesiad o'r Effaith** | 5 - 10 |
| **Crynodeb Sgorio** | 11 |
| **Casgliadau** | 11 |

## 1 Cyflwyniad

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i sicrhau bod holl ddisgyblion yn y Fro yn cael pob cyfle i sicrhau’r canlyniadau gorau posib. Er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod ysgolion yn parhau i fod yn gynaliadwy, yn adlewyrchu anghenion ein cymunedau lleol, a bod ganddynt yr amgylcheddau dysgu gorau posibl.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau fod ymgynghoriadau yn ystyrlon, yn berthnasol ac yn briodol ar gyfer y cymunedau dan sylw, ac mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal i sicrhau bod y cynigion yn glir, yn dryloyw ac yn adlewyrchu safbwyntiau'r rhai yr effeithir arnynt. Dim ond trwy weithio mewn partneriaeth ag ysgolion, llywodraethwyr, rhieni a'r cymunedau ehangach y gallwn wireddu’r weledigaeth hon.

Y cynnig yw sefydlu ysgol bob oed 3 - 19 newydd, gyda 48 o leoedd rhan-amser mewn meithrinfa, o fis Medi 2022 drwy:

- Newid ystod oedran Ysgol Gyfun y Bont-faen o 11 - 19 i 3 – 19 oed;
- Cynyddu capasiti Ysgol Gyfun y Bont-faen o 1,586 o leoedd i 1,796 o leoedd i roi lle i 210 o blant ysgol gynradd Saesneg gyda 48 o leoedd rhan amser ychwanegol mewn meithrinfa; a
- Codi adeilad ysgol newydd ar safle Ysgol Gyfun y Bont-faen ar gyfer y llefydd cynradd a meithrin.

Caiff y cynnig hwn ei ystyried o dan adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae adran 2.3 yn cyfeirio at Newidiadau Rheoleiddiedig i ysgol, sy'n cynnwys cynyddu capasiti'r ysgol gan o leiaf 200 o ddisgyblion ac ymestyn ystod oedran ysgol o flwyddyn neu fwy.

## 2. Cyd-destun Cenedlaethol

Mae'r canllawiau statudol allweddol ar gyfer awdurdodau lleol wrth ddatblygu cynigion statudol ar gyfer newidiadau i drefniadaeth ysgolion yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Wrth ystyried cynigion, rhaid i'r Cyngor ystyried yr effaith ar y gymuned leol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac mewn ardaloedd a ddynodwyd ar gyfer rhaglenni cymunedau’n gyntaf neu raglenni olynol.

## 3. Cyd-destun Polisi Lleol.

Gan adleisio polisi cenedlaethol a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, mae’r Cyngor wedi ymrwymo fel rhan o’r Cynllun Corfforaethol 2016-20 i gyflawni gweledigaeth o – ‘**Gymunedau Cryf gyda dyfodol disglair’**.

Mae Bro Morgannwg wedi ymrwymo i gyflawni'r amcan 'Bro Uchelgeisiol’ gan godi safonau cyflawniad cyffredinol trwy foderneiddio addysg yn y Fro er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn addysg o’r radd flaenaf.

Rydym yn credu, er mwyn cyflawni hyn, ei fod yn bwysig i ni gefnogi deilliannau dysgu ac addysgu trwy ddarparu adeiladau modern ac addas at y diben sy’n bodloni anghenion addysg fodern. Mae angen i ysgolion allu darparu'r profiad dysgu gorau posibl er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cyfleoedd gorau sydd ar gael iddynt a’u bod yn gallu cyrraedd eu llawn botensial.

## 4. Heriau Presennol

Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â nifer o heriau a byddai'n:

- Sicrhau bod y Cyngor yn gallu darparu ar gyfer galw’r dyfodol am addysg Gymraeg yn seiliedig ar y tueddiadau cyfredol.

- Galluogi darpariaeth 'ragorol' yn Ysgol Gyfun y Bont-faen i barhau er eu bod yn darparu ar gyfer poblogaeth fwy o ddisgyblion.

- Cynnig amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol fyddai’n gallu addasu i newid, wrth herio a chefnogi plant i gyflawni eu potensial yn llawn.

- Byddai’r cynnig yn cynyddu gallu’r gymuned i ddefnyddio a rhyngweithio â’r ysgol drwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol, gan fodloni anghenion yr ysgol ar yr un pryd.

Mae nifer o gyfleoedd hefyd sy'n gysylltiedig â'r model ysgol bob oed fel yr amlinellir yn yr adran ‘Beth yw ysgol bob oed?' yn y ddogfen ymgynghori.

## 5. Proffil Cymunedol

Mae tair ysgol yn y Bont-faen ar hyn o bryd:

- Ysgol gymunedol Saesneg sy'n gwasanaethu plant 11 i 19 oed yn ardal y Bont-faen yw Ysgol Gyfun y Bont-faen. O ran derbyniadau, mae 240 disgybl ym mhob grwp blwyddyn gyda chyfanswm capasiti o 1586 o ddisgyblion.
- Ysgol gymunedol Saesneg sy'n gwasanaethu plant 3 i 11 oed yn ardal y Bont-faen yw Ysgol Gyfun y Bont-faen. O ran derbyniadau, mae 30 disgybl ym mhob grŵp blwyddyn gyda chyfanswm capasiti o 210 o ddisgyblion.
- Mae Ysgol Iolo Morganwg yn ysgol gymunedol Gymraeg sy'n gwasanaethu plant 3 i 11 oed yng ngorllewin y Fro. O ran derbyniadau, mae 30 disgybl ym mhob grŵp blwyddyn gyda chyfanswm capasiti o 210 o ddisgyblion.

Mae'r Bont-faen yn gorwedd ar anheddiad Rhufeinig ac mae rhai o'i muriau o'r cyfnod canoloesol wedi goroesi. Mae'r Bont-faen yn cynnal gŵyl fwyd a diod flynyddol, gŵyl gerddoriaeth ac mae'n gartref i lawer o dimau chwaraeon.

Mae gan Ward 1 y Bontfaen boblogaeth o 1,629 (Swyddfa’r Ystadegau Gwladol, 2019). Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALLC) 2014, mae Ward 1 y Bont-faen yn safle 1664 allan o 1909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) yng Nghymru, gan ei osod ymhlith y 50% lleiaf difreintiedig. Dim ond 6% o bobl o oedran gweithio yn y Bontfaen 1 sy'n cael budd-daliadau sydd ynghlwm â chyflogaeth.

**Datblygiadau Tai**

Mae nifer o ddatblygiadau tai yn y Bont-faen wedi eu cynnwys yng Nghynllun Datblygu Lleol y Cyngor 2011 - 2026. Y mwyaf o'r datblygiadau hyn oedd y 'Tir i'r gogledd ac i'r gorllewin o Darren Close ' gyda 475 o anheddau. Mae'r datblygiad hwn wedi sicrhau caniatâd cynllunio ac mae'r broses adeiladu wedi dechrau ar y safle.

Amcangyfrifir y nifer o ddisgyblion sy'n deillio o ddatblygiad drwy ddefnyddio fformiwla sy'n deillio o ddata cyfrifiad o ddeiliaid tai ym Mro Morgannwg. Mae'r fformiwla wedi'i chynnwys yng Nghanllawiau Atodol y Cyngor at ddibenion cynllunio.

Amcanestynir y bydd y datblygiad cyfan yn creu tua 48 o ddisgyblion meithrin a 132 disgybl ysgol gynradd.

## 6. Asesiad o’r Effaith

Mae’r rhan hon o’r Asesiad Effaith Cymunedol yn asesu’r effaith bosibl y gallai’r cynnig hwn ei chael ar y gymuned leol. Mae’r wybodaeth a ddadansoddwyd yn y broses hon yn cynrychioli cipolwg o’r sefyllfa bresennol. Mae’r asesiad o effaith yn ddogfen sy’n esblygu, a bydd yn parhau i gael ei datblygu drwy gydol y project. Caiff adborth a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori ei ddefnyddio i lywio’r Asesiad Effaith Cymunedol, a gaiff ei gyflwyno i’r Cabinet fel rhan o’r Adroddiad ar yr Ymgynghoriad.

Cafodd wyth mesur allweddol eu nodi:

| Cyf. | Mesur |
|---|---|
| CI1 | Plant sy’n byw yn y dalgylch yn mynychu eu hysgol leol |
| CI2 | Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned leol, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol. |
| CI3 | Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol |
| CI4 | Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan a gweithgareddau a gynhelir ar safle’r ysgol |
| CI5 | Effaith ar fusnesau lleol |

| | |
|---|---|
| CI6 | Effaith ar gyflogaeth leol |
| CI7 | Effaith ar seilwaith lleol |
| CI8 | Trefniadau cludiant |

Aseswyd yr wyth mesur i nodi unrhyw effeithiau negyddol neu gadarnhaol ar y gymuned leol a'r gymuned ehangach, a rhoddwyd sgôr sy’n amrywio o -3 i +3 ar sail y cydbwysedd o dystiolaeth oedd ar gael.

| Sgôr Mesur | Asesiad Mesur |
|---|---|
| -3 | Dirywiad mawr |
| -2 | Dirywiad cymedrol |
| -1 | Dirywiad bach |
| 0 | Dim newid yn gyffredinol |
| 1 | Gwelliant Bach |
| 2 | Gwelliant Cymedrol |
| 3 | Gwelliant Mawr |

**Effeithiau ar y Gymuned Leol**

| Cyf. | Mesur | Sgôr | Effaith y Cynnig |
|---|---|---|---|
| CI1 | Plant sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu eu hysgol leol | 3 | Mae datblygiadau tai diweddar wedi arwain at nifer y disgyblion yn cynyddu yng Ngorllewin y Fro. Mae nifer o ddatblygiadau tai newydd yn y Bontfaen. Y mwyaf o'r datblygiadau hyn oedd y 'Tir i'r gogledd ac i'r gorllewin o Darren Close ' gyda 475 o anheddau. Amcanestynir y bydd y datblygiad cyfan yn cynhyrchu tua 24 o ddisgyblion meithrin a 66 disgybl ysgol gynradd. Oherwydd y prinder lleoedd gwag yn y Bont-faen, cymeradwyodd Cabinet y Cyngor ddull graddol o gynyddu capasiti yn y Bont-faen gyda'r cyfrwng Saesneg yn cael sylw fel rhan o gam un a chyfrwng Cymraeg fel rhan o gam dau.<br><br>Byddai'r cynnig hwn yn arwain at 210 o leoedd mewn cynradd Saesneg ychwanegol a 48 o leoedd rhan-amser mewn meithrinfeydd. Byddai'r cynnig hefyd yn sicrhau bod y Cyngor yn gallu bodloni ei ddyletswydd statudol i ddarparu nifer digonol o lefydd ysgol.<br><br>Pe na bai capasiti cynradd cyfrwng Saesneg yn cynyddu, byddai'r galw a ragwelwyd yn fwy na'r capasiti presennol o fis Medi 2020.<br><br>Byddai'r cynnig hwn yn arwain at gyflenwad a galw mwy effeithlon am leoedd ysgol yn ardal y Bont-faen. |
| CI2 | Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned leol, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol. | 2 | Y bwriad yw y byddai'r holl gyfleusterau presennol i blant, rhieni a'r gymuned yn parhau pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen. Byddai'r cynnig yn golygu cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n debygol o arwain at fwy o alw am wasanaethau ysgol, yn ogystal â rhoi'r cyfle i ehangu nifer y gwasanaethau a gynigir. Gydag ysgol bob oed 3-19, mae potensial i ddarparu gwasanaethau ychwanegol ar draws yr holl ystodau oedran. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae’r cynnig yn ffurfio rhan o Fand B Rhaglen Ysgolion yr G21 y Cyngor. Byddai hyn yn cynnwys creu cyfleusterau newydd o’r radd flaenaf sy'n addas i’r G21. Elfen allweddol o Raglen Ysgolion yr G21 yw darparu cyfleusterau cymunedol.<br><br>Byddai gwasanaethau a ddarperir yn ysgol gynradd Y Bont-faen ac Ysgol Iolo Morganwg hefyd yn parhau. |
| CI3 | Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol | 2 | Mae'r ysgolion presennol yn y Bont-faen yn defnyddio cyfleusterau cymunedol yn rheolaidd, gan gynnwys:<br>• y Parc, nid yn unig at ddibenion hamdden ond i astudio bywyd gwyllt a natur, yn ogystal ag ar gyfer celf;<br>• y Stryd Fawr at ddibenion daearyddol;<br>• Eglwysi lleol;<br>• Neuadd y Dref;<br>• y pwll bywyd gwyllt a'r ardd berlysiau;<br>• Castell St. Quentin;<br>• yr Afon Ddawan;<br>• ymweliadau â'r siopau e.e. Fablas, Waitrose, Tesco a swyddfeydd y GEM; a'r Llyfrgell.<br><br>Byddai'r cyfleusterau hyn yn parhau i gael eu defnyddio gan Ysgol Gyfun Y Bont-faen, ysgol gynradd Y Bont faen ac Ysgol Iolo Morganwg. Mae'n debygol y byddai disgyblion ychwanegol Ysgol Gyfun y Bont-faen yn cynyddu'r defnydd o gyfleusterau cymunedol. |
| CI4 | Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan a gweithgareddau a | 2 | Nod allweddol Rhaglen Ysgolion yr G21 yw sicrhau y caiff cyfleusterau’r ysgol eu datblygu i ddiwallu anghenion y gymuned leol. Byddai aelodau’r gymuned leol yn cymryd rhan drwy gydol datblygiad’r cynlluniau ar gyfer adeilad newydd yr ysgol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau’n bodloni anghenion y gymuned ac yn gwella’r cyfleusterau sydd ar gael. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gynhelir ar safle'r ysgol | | Mae'r cyfleusterau presennol sydd ar gael i'r gymuned archebu ar safle Ysgol Gyfun y Bontfaen yn cynnwys cae 3G Pob Tywydd, Man Chwarae Aml-ddefnydd, neuadd chwaraeon, ystafell ffitrwydd, theatr ddrama, ac ystafelloedd cyfarfod.<br><br>Byddai'r cynnig hwn yn cynyddu'r cyfleusterau cymunedol sydd ar gael gyda MChADd, neuadd chwaraeon ac ystafelloedd cyfarfod ychwanegol ar gael neu eu llogi. |
| CI5 | Effaith ar fusnesau lleol | 0 | Nid oes unrhyw effeithiau canfyddedig ar fusnesau lleol o ganlyniad i'r cynnig hwn. Byddai Ysgol Gyfun Y Bont-faen, Ysgol Gynradd Y Bont-faen ac Ysgol Iolo Morganwg yn parhau i weithredu, gan gydweithio â busnesau lleol. |
| CI6 | Effaith ar gyflogaeth leol | 2 | Byddai'r cynnig hwn yn arwain at gynyddu cyfleoedd cyflogaeth yn yr ysgol gan y byddai niferoedd disgyblion ychwanegol yn arwain at dwf mewn lefelau staffio yn y dyfodol.<br><br>Gall fod cyfleoedd datblygiad proffesiynol hefyd i staff o fewn amgylchedd ysgol bob oed. |
| CI7 | Effaith ar seilwaith lleol | 1 | Byddai'r cynnig hwn yn arwain at ddau safle cynradd cyfrwng Saesneg yn y Bont-faen a allai leihau amser teithio i'r ysgol. Byddai cynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion cynradd sydd ar gael o fewn y dalgylch hefyd yn lleihau siwrneiau hwy i ysgolion cynradd amgen.<br><br>Pe byddai'r cynnig hwn yn cae ei roi ar waith, byddai goblygiadau traffig a thrafnidiaeth ar safle Ysgol Gyfun y Bont-faen yn cael eu hystyried fel rhan o'r Asesiad Trafnidiaeth sy'n ofynnol er mwyn cael cydsyniad cynllunio. Byddai hyn yn sicrhau bod goblygiadau trafnidiaeth yn cael eu hystyried wrth gynllunio'r ysgol newydd. |
| CI8 | Trefniadau cludiant | 2 | Mae dyletswydd ar y Cyngori ddarparu cludiant ysgol am ddim i blant o oed ysgol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded i'r ysgol briodol agosaf. Yn unol â 'Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008 '. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | “*Diffinnir hyn fel mwy na 2 filltir i’r ysgol addas agosaf ar gyfer Disgyblion Cynradd a mwy na 3 milltir ar gyfer Disgyblion Ysgolion Uwchradd. Mesurir pellteroedd drwy’r llwybr cerdded agosaf sydd ar gael.”*<br><br>Oherwydd y lleoedd cynradd cyfyngedig sydd ar gael yn y Bont-faen, byddai'r cynnig hwn yn lleihau'r ddibyniaeth ar gludiant i ysgolion cynradd cyfagos drwy ddarparu 210 o leoedd ychwanegol o fewn y dalgylch.<br><br>Mae'r dalgylch yn gymharol fach oherwydd y boblogaeth drwchus, sy'n golygu mai ychydig iawn o ardaloedd fyddai yn gymwys ar gyfer teithio am ddim i ddysgwyr.<br><br>Byddai asesiad trafnidiaeth llawn yn cael ei gynnal fel rhan o’r broses ddylunio ar gyfer yr adeilad ysgol newydd. Byddai hyn yn asesu'r effaith ar y seilwaith lleol ac yn cynnwys dadansoddiad llwybr clir i sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth gyfredol ar hygyrchedd i'r holl wasanaethau brys. Byddai hyn hefyd yn cynnwys asesu llwybrau cerdded diogel. Byddai'r asesiad trafnidiaeth yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r broses ddylunio i liniaru unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd.<br><br>Mae cyfle drwy'r broses ddylunio ac adeiladu i wella llwybrau cerdded cysylltiol er mwyn gwella diogelwch a mwynhad y llwybrau. Byddai dyluniadau yn ddarostyngedig i'r broses gynllunio ffurfiol sy'n cynnwys ymgynghoriad statudol gyda thrigolion lleol.<br><br>Gallai'r ysgol weithredu amseroedd dechrau a gorffen fesul cam ar gyfer y cyfnodau cynradd ac uwchradd er mwyn sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl, fel sy'n digwydd yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, ysgol Bob oed 3-19 yn y Barri. Gallai'r ysgol wahanu'r amseroedd traffig ar yr oriau brig ymhellach drwy glybiau gofal ac ôl-ysgol cofleidiol. |

## 7. Crynodeb Sgorio

| Cyf. | Cymuned Leol |
|---|---|
| CI1 | 3 |
| CI2 | 2 |
| CI3 | 2 |
| CI4 | 2 |
| CI5 | 0 |
| CI6 | 2 |
| CI7 | 1 |
| CI8 | 2 |
| Sgôr Cyfartalog | 1.75 |

## 8 **Casgliadau**

Mae’r asesiad effaith yn nodi y byddai’r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y gymuned leol mewn 1 o’r 8 mesur a aseswyd. Byddai’r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol mewn 7 o’r 8 mesur a aseswyd. Yn gyffredinol, byddai’r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol.

Byddai’r cynnig yn galluogi Ysgol Gyfun y Bont-faen i barhau â’i llwyddiant wrth gynnig addysg i fwy o ddisgyblion. Byddai’n cynnig amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol fyddai’n gallu addasu i newid, wrth herio a chefnogi plant i gyflawni eu potensial yn llawn. Byddai’r cynnig yn galluogi’r gymuned i barhau i ddefnyddio a rhyngweithio â’r ysgol ac i wneud hynny fwyfwy, drwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol, gan ddiwallu anghenion yr ysgol ar yr un pryd.

Byddai angen ystyried goblygiadau trafnidiaeth yn ofalus wrth ddylunio'r ysgol newydd i gyfyngu ar effaith y cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n teithio i'r safle.

O'r Asesiad Effaith Cymunedol, daethpwyd i'r casgliad y byddai'r cynnig i sefydlu ysgol bob oed i ddarparu ar gyfer 210 o leoedd cynradd cyfrwng Saesneg gyda 48 o leoedd rhan-amser meithrin ychwanegol yn diwallu anghenion y gymuned yn well er mwyn sicrhau bod y cydbwysedd cynaliadwy rhwng y cyflenwad a'r galw am lefydd ysgol.